


Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# Bioamrywiaeth

Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Is)

Eco-Schools
Eco-Sgolion

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

15 BYWYD AR Y TIR

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth eang o bethau byw ar y Ddaear. Mae bodolaeth pob ffurf ar fywyd yn cynnwys planhigion, anifeiliaid, pryfed, adar, ffyngau a micro organebau wedi'i gwau yn yr ecosystem a galw yn gartref. Mae pob organeb byw yn rhan o fioamrywiaeth ein hamgylcheddau naturiol ac a wnaed gan ddyn. Ni all bodau dynol oroesi heb ecosystem iach, rydym yn dibynnu arni ar gyfer ein hiechyd, bwyd, diod, aer i anadlu ac ansawdd bywyd.

Yn yr iaith Gymraeg, mae 'cynefin' yn golygu lle, ond yn fwy na hynny, synnwyr o le a chysylltiad â natur. Mae cydnabod pwysigrwydd ein hamgylcheddau naturiol yn hanfodol wrth ddeall sut mae amddiffyn a gwella bioamrywiaeth.

Dengys Adroddiad 'Living Planet' 2020 y World Wildlife Fund fod ymddygiad bodau dynol, o'r ffordd rydym yn byw i'r bwyd rydym yn ei fwyta, yn dinistrio adnoddau naturiol a chynefinoedd sy'n cael effaith ddinistriol ar boblogaethau bywyd gwyllt a hefyd ar ein hiechyd a'n llesiant ein hunain.



# Safbwynt hinsawdd

Mae'n dra hysbys y gall newidiadau cyflym yn yr hinsawdd effeithio'n ddirfawr ar ecosystemau. Er y bu newidiadau yn yr hinsawdd drwy hanes, pan mae'n digwydd ar gyflymdra nid oes cyfle i rywogaethau addasu sy'n arwain at golli bioamrywiaeth. Mae pob rhywogaeth a gollir yn dylanwadu ar feysydd eraill o'r ecosystem. Os collir rhywogaeth ysglyfaeth, mae'n achosi prinder bwyd i ysglyfaethwyr neu os collir ysglyfaethwr ar gyfer rhywogaeth benodol, yna mae hynny'n achosi gorboblogaeth o'r rhywogaeth ysglyfaeth heb ysglyfaethwr i'w rheoli. Wrth i'r hinsawdd gynhesu, mae tystiolaeth o rywogaethau'n llwyddo mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u canfod o'r blaen ac yn gwthio'r rhywogaethau brodorol allan.

# Adeiladu Nyth
## Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Is)

## Adeiladu eich nyth eich hun



Pam mae adar yn adeiladu nythod? Beth sydd angen i'r nythod ei gwneud? Amddiffyn yr aderyn a'i wyau a'r cywion pan fyddant yn deor. Mae angen i nythod fod yn gryf, amddiffyn yr wyau/cywion rhag y tywydd a'u cadw yn ddiogel rhag ysglyfaethwyr. Mae angen adeiladu'r nyth mewn lle diogel, sicrhau bod modd mynd i mewn ac allan a'i fod yn feddal ar y tu mewn ac yn gryf ar y tu allan.

Sut yr adeiladir nythod? Pa ddeunyddiau maent yn eu defnyddio a pham? Deunyddiau naturiol, sydd ar gael yn rhwydd yn yr ardal leol, yn hawdd i'w cludo ac yn addas ar gyfer gofynion yr aderyn.

## Pethau sydd eu hangen:

- Ystod o ddeunyddiau naturiol ar gael ar dir eich hysgol neu yn yr ardal leol e.e. brigau mawr a bach, dail sych, glaswellt wedi'i dorri, gwellt/gwair, mwd, plu, mwsogl, gwlân.
- Tegan aderyn os yw'n bosibl.

## Cam 1

Meddyliwch am leoliad a dyluniad eich nyth. Gallech greu nyth fawr i'ch grŵp ymgynnull ynddo neu greu nythod llai mewn parau neu grwpiau. Dewch o hyd i le diogel i adeiladu eich nyth megis mewn gwrychoedd, o dan fwndel o goed neu yng nghanghennau coeden.







## Cam 2

Casglwch eich deunyddiau - meddyliwch yn ofalus ar gyfer beth ydych eisiau defnyddio pob un o'r deunyddiau a chymerwch gymaint ag sydd ei angen arnoch yn unig i osgoi gwastraffu egni.





**Her**

Cofiwch dim ond eu pigau a'u crafangau all adar eu defnyddio. Sut y byddwch yn cludo eich deunyddiau adeiladu? A allwch chi greu eich nyth gan ddefnyddio un llaw yn unig fel pig aderyn?

## Cam 3



Meddyliwch am faint a siâp eich nyth a dechreuwch adeiladu. Peidiwch ag anghofio bod angen iddo fod yn ddigon cryf i amddiffyn yr wyau rhag ysglyfaethwyr a'r tywydd. Mae rhai adar yn defnyddio mwd gwlyb i lynu eu nythod at ei gilydd neu'n gweu'r deunyddiau at ei gilydd yn defnyddio eu pigau.





## Cam 4

Beth y byddwch yn ei ddefnyddio i leinio'r tu mewn i'r nyth i gadw'r wyau'n ddiogel? Mae adar yn defnyddio plu, mwsogl, ffwr anifeiliaid neu wlân a phlastig neu becynnau o sbwriel weithiau hyd yn oed.

## Cam 5





Rhowch eich aderyn yn ei nyth newydd! A ydych chi'n credu y byddai'r nyth newydd yn lle diogel i aderyn go iawn ddodwy ei wyau? Meddyliwch am y rhesymau pam y dewisoch y lleoliad a deunyddiau a pharatowch hysbyseb byr gyda'ch grŵp i werthu eich nyth i aderyn! Meddyliwch 'Lleoliad! Lleoliad! Lleoliad!' a sicrhewch eich bod yn cynnwys holl bwyntiau gwerthu unigryw eich nyth. Gallech wneud fideo o'ch hysbyseb neu wneud poster yn arddull y rheiny y gallech eu gweld yn ffenestr Gwerthwyr Tai.

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Maes Dysgu a Phrofiad** - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi

Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

# Camau nesaf a syniadau eraill

- Darllenwch 'Bird Builds a Nest' gan Martin Jenkins i ddysgu mwy am y grymoedd sydd ynghlwm ag adeiladu nyth.
- Grwpiwch y deunyddiau nythu yn ôl gwead neu a ydynt yn naturiol neu wedi'u gwneud gan ddyn.
- Dysgwch fwy am faint o adar a all ddiweddu yn defnyddio deunyddiau a wnaed gan ddyn yn eu nythod - cysylltiad â lleihau sbwriel a gwastraff.
- Darganfyddwch pa fathau o adar sydd gennych ar dir eich hysgol a pha fath o nyth y byddant yn ei adeiladu.
- Darparwch ystod o ddeunyddiau naturiol ar gyfer adar sy'n nythu ar dir eich hysgol.



- Gwnewch flychau adar ar gyfer tir eich hysgol i annog adar sy'n nythu.
- Cymerwch ran yn 'Big School Bird Watch' yr RSPB.
- Edrychwch i weld sut allech chi gynyddu bioamrywiaeth ar dir eich hysgol - e.e. cyflwyno planhigion ar gyfer peillwyr, plannu ardal blodau gwyllt, creu llynnoedd bychain, creu ardal/gardd i drychfilod, plannu coed ffrwythau, gadael i ardal o gae'r ysgol dyfu'n wyllt, gofyn i dîm cynnal a chadw'r tir roi'r gorau i ddefnyddio chwynladdwr neu blaladdwr.

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 395 8 13